

Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2019

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn:
rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth
SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **5 Mai 2020** i:

Tîm Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

cyfeiriad e-bost: post16aln@gov.wales

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r amser a dreulir a'r cyfraniadau gan bob un o'r rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cael eu defnyddio i fireinio a llywio'r Cod a'r rheoliadau terfynol.

Cwestiynau

Cynnwys y rhestr – rheoliadau 3 a 4

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r wybodaeth a'r trefniadau mae'n ofynnol eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	---	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Gofynion o ran bod ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a pharhau i fod arni – rheoliadau 5 a 6

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr a'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra bydd sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wedi'i gynnwys ar y rhestr?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	---	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

A oes angen cyfeiriadau cyfatebol at Arolygiaeth Gofal Cymru yma, mewn perthynas â sefydliadau sy'n darparu llety preswyl?

Newid trefniadau – rheoliad 7

Cwestiwn 3 – A yw'r gweithdrefnau ar gyfer newid trefniadau'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn briodol?

Ydynt	✓	Nac ydynt	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------	---	-----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Gwneud cais i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr – rheoliad 8

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i dynnu sefydliad oddi ar y rhestr?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	---	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Tynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr – rheoliadau 9 a 10

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'r ystyriaethau i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr a'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae gwall yn fersiwn Cymraeg y rheoliadau drafft.

Mae rheoliad 10(3) yn cyfeirio at '10(3) neu 11(3) (yn ôl y digwydd)' pan ddylai cyfeirio at '11(3) neu 12(3) (yn ôl y digwydd)'.

Mae hefyd yn cyfeirio at 'yr hawl i apelio y cyfeirir ati yn rheoliad 10' pan dylai cyfeirio at 'yr hawl i apelio y cyfeirir ati yn rheoliad 11'.

Hawl i apelio – rheoliadau 11 ac 12

Cwestiwn 6 – A yw'r gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau yn briodol?

Ydynt	☐	Nac ydynt	☐	Ddim yn siŵr	☐
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Fel uchod, mae gwall yn fersiwn Cymraeg y rheoliadau drafft.

Ble mae rheoliadau 11(3)(a) ac 11(3)(b) yn cyfeirio at 'reoliad 11', mi ddylent fod yn cyfeirio at 'reoliad 12'.

Ble mae rheoliad 11(4) yn cyfeirio at 'reoliad 10' mi ddylai fod yn cyfeirio at 'reoliad 12'.

Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol i nifer o ddysgwyr sy'n dod dan gwmpas y rheoliadau hyn. Nid yw'r rheoliadau drafft yn cynnig casglu unrhyw wybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn hysbys i'r sawl sy'n gwneud y trefniadau dros ddysgwyr ôl-16 beth yw cyfrwng iaith y ddarpariaeth a gynigir yn sefydliadau dan sylw.

Mi ellid cynnwys gwybodaeth am gyfrwng iaith y ddarpariaeth dan reoliad 3(b)(iv) ('y math o DDdY a ddarperir gan yr SOAA'), ond nid yw hynny wedi'i nodi'n benodol yn y rheoliadau nac yn y canllawiau.

Golyga hynny mai'r tebygolrwydd yw na fyddai'n wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu/chasglu ac felly y byddai'n anoddach sicrhau darpariaeth addas i'r dysgwyr dan sylw.

Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan y bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol i nifer o ddysgwyr sy'n dod dan gwmpas y rheoliadau hyn, awgrymwn yn gryf y dylid ychwanegu pwynt at y rhestr yn rheoliad 3(b):

(x) cyfrwng iaith y DDdY a ddarperir gan yr SOAA

Dylid diweddarau'r canllawiau drafft i adlewyrchu'r newid hynny, gan gynnwys y ffurflenni ar ddiwedd y canllawiau.

Os na chytunir i'r awgrym uchod o ychwanegu pwynt at y rheoliadau, dylid o leiaf diwygio'r canllawiau i nodi'n ddiamwys bod rheoliad 3(b)(iv) yn cynnwys yr angen i ddatgan cyfrwng iaith y ddarpariaeth, gan gynnwys nodi hynny yn y ffurflenni ar ddiwedd y rheoliadau.

Cwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Sylwadau ategol

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: